PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 11 MAI 2016

Present: County Councillor McGarry(Chairperson)
County Councillors Ali Ahmed, Carter, Chris Davis, Lomax, Magill a/ac Sanders

## 83 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ralph Cook.

## 84 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Lomax, a ddatganodd fuddiant personol gan ei fod yn byw mewn llety gwarchod.

## 85 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2016 fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Tudalen 9, pwynt bwled 3 – dileu'r geiriau 'Cynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'.

## 86 : CYNLLUNIAU CYFLENWI'R GYFARWYDDIAETH

Gwasanaethau Cymdeithasol

Gwnaeth y Cadeirydd groesawu'r Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod y Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant, Tony Young, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, ac Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro Gwasanaethau Oedolion, i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cadeirydd wahodd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle y dywedodd ei bod yn dymuno gosod ar gofnod penodiad Amanda Phillips fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Wasanaethau Oedolion, a nododd y gwaith rhagorol a oedd eisoes wedi cael ei wneud tra oedd mewn swydd dros dro. Gwnaeth yr Aelod Cabinet ddatgan ei bod yn gobeithio mai Caerdydd bydd yr awdurdod arweiniol mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Datganodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mai cynllun drafft a dogfen fyw oedd hon. Esboniodd fod tudalen 6 o'r cynllun yn amlinellu'r busnes craidd a fyddai'n llywio'r cynllun ynghylch canlyniadau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd ei bod yn bosibl y bydd angen adolygu'r cynllun y flwyddyn nesaf oherwydd y bydd y Ddeddf ar waith. Roedd pwyslais ar ddwyn dwy ran y gyfarwyddiaeth ynghyd y flwyddyn nesaf, er mwyn sicrhau y bydd y cynllun yn well ac yn fwy trefnus ac yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau.

Dangoswyd cyflwyniad i'r aelodau ar Gynllun Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Llwybr Clir, Cyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth, Dangosyddion Corfforaethol Allweddol, a Chyflawniadau a Chynllun Cyflawni Drafft – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Oedolion.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i swyddogion am y cyflwyniad a gwahoddodd aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau cyffredinol ynghylch y cynllun cyflawni:

- Gwnaeth yr aelodau ofyn sut roedd y gyfarwyddiaeth yn ei hamddiffyn ei hunan er mwyn mynd i'r afael â methiant un neu fwy o ddarparwyr. Gwnaeth swyddogion esbonio bod hyn yn broblem ar gyfer yr holl gyngor – yn wir, ei bod yn broblem genedlaethol. Roedd trafodaethau ynglŷn â'r cyflog byw cenedlaethol o fewn timau caffael mewn fforymau a chyfarfodydd rheolaidd. Roedd yn her allweddol, ac er bod swyddogion wedi cael eu rhybuddio o'r risgiau, nid oeddent yn gallu rhoi sicrwydd ynglŷn â hyn ar hyn o bryd.

  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi mynychu Bord Gron Genedlaethol yn ddiweddar, a gynullwyd ar gais Mark Drakeford AC, er mwyn cael rhyw syniad ynglŷn â beth fyddai cost y cyflog byw cenedlaethol. Gwnaeth rhanddeiliaid fynychu'r cyfarfod ac ystyriwyd y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar gyfer Caerdydd. Roedd adroddiad opsiynau yn cael ei ysgrifennu ar gyfer y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oedd y pwyslais ar gost yn unig, ond hefyd ar beth fyddai cyfraniad pob sector, h.y. mewn cynnyrch; ystyriwyd mai hon oedd un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaeth yr Aelod Cabinet ddatgan hefyd y byddai'n cyfarfod ag Is-gadeirydd Fforwm Gofal Cymru ac Is-gadeirydd y Gymdeithas Cartrefi Gofal er mwyn cynnal rhagor o drafodaethau.

  Gwnaeth y Cyfarwyddwr ychwanegu bod trafodaeth wedi cael ei chynnal yn ddiweddar, a hyrwyddwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, a'r brif flaenoriaeth oedd sefydlogi'r farchnad, yn enwedig ym maes gofal cartref. Pwysleisiodd y bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol newydd ar gyfer Gwasanaethau Integredig yn canolbwyntio ar gomisiynu ar y cyd a defnyddio grym prynu yn y maes hwn.

- Gwnaeth aelodau nodi nad oedd y Meysydd i'w Gwella a gafwyd gan AGGCC mewn perthynas â'r elfen ansawdd wedi eu crybwyll yn y cynllun cyflawni. Gwnaeth swyddogion ddatgan bod ymateb cadarn i bryderon a uwchraddiwyd yng Nghaerdydd. Gofynnwyd am hyfywedd ariannol ac roedd angen i ansawdd gael ei fesur wrth i drafodaethau parhaus â darparwyr ystyried ansawdd yn ystod cam adolygu'r broses.

- Gwnaeth aelodau drafod y cysylltiadau rhwng adrannau Gwelliannau a Chynllun Gweithredu'r cynllun cyflawni. Dywedodd swyddogion y bu erfyn am ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau o'r blaen, felly roedd y pwyslais yn y cynllun cyflawni ar y chwe blaenoriaeth busnes craidd. Y gwelliannau wedi'u cynnwys oedd y rhai a ddetholwyd gan ddarparwyr ac eraill. Nodwyd y byddai newid yn y modd roedd y cynlluniau cyflawni'n cael eu strwythuro ac roedd swyddogion yn fodlon ceisio gwella'r trywydd/darllen ar ei draws.

- Roedd aelodau yn ei ystyried yn bwysig canfod y prif flaenoriaethau o ran y problemau a fyddai'n deillio o ganlyniad i effaith y cyflog byw cenedlaethol.

- Gwnaeth aelodau gyfeirio at yr adran Cynllunio ar gyfer y Dyfodol yn y cynllun, a nodi'r pedwar pwynt bwled, a gofyn a fyddai popeth yn cael ei gasglu gan y Cynllun Gweithredu. Esboniodd swyddogion y byddai rhai'n fwy penodol nag eraill, ond roeddent wedi ceisio eu casglu i gyd. Roedd aelodau yn meddwl y byddai blaenoriaethu'n fuddiol.

- Roedd aelodau yn ddiolchgar am y ffaith bod canlyniadau wedi'u cynnwys yn y cynllun cyflawni a gwnaethant ofyn sut y byddai'r rhain yn cael eu mesur yn rheolaidd bob tri mis. Esboniodd swyddogion fod hyn yn newydd ar gyfer y cynllun ac roedd swyddogion yn gosod y gwaelodlinau. Ar ddiwedd y tri mis cyntaf, byddai disgwyliad gan y llywodraeth a rhywfaint o ddata/gwybodaeth feddal gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y modd i gasglu hyn a'i chael yn gywir yn her yn y flwyddyn gyntaf.

- Roedd aelodau'n pryderu am y cyfrifoldeb a'r effaith ar staff, yn enwedig ar reolwyr a chyfarwyddwyr, gan nodi bod eu lefelau salwch yn eithaf uchel ac y gallent waethygu. Roedd swyddogion hefyd yn pryderu am gyflawni disgwyliadau'r Ddeddf a disgwyliadau'r cyhoedd. Gwnaethant ychwanegu bod angen edrych ar ddulliau atal a sut i rymuso pobl i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, trwy arwyddo i wasanaethu ac yn y blaen. Nodwyd ei bod yn bosibl na welir manteision yn y flwyddyn gyntaf. Gwnaeth y Cyfarwyddwr nodi'r ddyletswydd ar gyfer staff a chytuno eu bod o dan bwysau mawr. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod llawer o frwdfrydedd gwirioneddol yn y timau, er gwaethaf y pwysau hyn. Dywedodd swyddogion fod angen iddynt fel arweinwyr gyfathrebu, ysgogi ac ymgysylltu â'r gweithlu, sy'n ymrwymedig ac yn awyddus i wynebu'r heriau.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ynglŷn â mesurau a thargedau.

- Roedd yr aelodau yn ystyried bod y mesurau ar gyfer camau gweithredu Dinas sy'n Ystyriol o Ddementia ar dudalen 23 o'r cynllun yn amwys. Gwnaeth swyddogion gytuno bod angen iddynt gael eu gwella; roedd llawer o waith mapio'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd ac y byddent yn hapus i ddisgrifio hyn ymhellach yn y cynllun. Datganodd Aelod y Cabinet ei hymrwymiad i sicrhau bod Caerdydd yn dod yn Ddinas sy'n Ystyriol o Ddementia cyn gynted â phosibl; byddai ymgyrch yn rhifyn nesaf Llais y Ddinas hefyd.

- Gwnaeth aelodau ofyn sut mae datblygiad y gweithlu yn cael ei gyllido. Datganodd swyddogion ei fod yn dod o grant, ond roedd yn cael ei reoli gan yr awdurdod lleol.

- Gwnaeth aelodau ofyn sut mae swyddogion yn bwriadu gweithio tuag at y fframwaith perfformiad, gan nodi'r cyfrifoldeb tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth, y Ddeddf a thargedau mewnol. Dywedodd y Cyfarwyddwr mai'r cynllun yw'r blanced diogelwch. Byddent yn cyflawni'r gweithredoedd yn y cynllun, a byddai rhai lefelau o berfformiad yn cael eu cryfhau fesul cyfnod tri mis; mae rhai mesurau eisoes wedi eu cynnwys yn adolygiadau perfformiad a datblygiad personol y staff.

- Nododd aelodau fod rhai mesurau perfformiad yn y cynllun yn dweud nad ydynt yn berthnasol, a gwnaethant geisio eglurhad ar y mater. Esboniodd y swyddogion y byddai gwybodaeth am salwch ac adolygiadau perfformiad a datblygiad personol yn cael ei chynnwys ar unwaith; o ran gwybodaeth am y Cynllun Gweithredu, mae rhai camau'n anodd eu mesur yn eu herbyn a gwnaeth y Cyfarwyddwr hefyd ddatgan nad yw templed y cynllun yn diwallu eu hanghenion ac mae hyn wedi cael ei fwydo i'r Pennaeth Perfformiad.

  Nodwyd bod Dangosfwrdd Cyfarwyddiaeth a bod problemau yn cael eu pwysleisio mewn cyfarfodydd misol. Roedd cydymffurfio ag adolygiadau perfformiad a datblygiad personol yn 95% ar gyfer 2015/16.

- Roedd aelodau yn ei hystyried yn bwysig gweld a yw'r dangosyddion perfformiad cyflawni wedi gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr ein gwasanaethau; roedd angen gweld gwaith ansoddol. Datganodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi cael trafodaeth â'r Pwyllgor Craffu ynglŷn â chynnal Gweithdy Craffu ar y Cyd er mwyn ystyried y cwestiwn 'beth yw'r ots', i ganfod yr hyn mae angen canolbwyntio arno mewn pentwr o ddata, a'r hyn mae angen i aelodau'r Pwyllgor Craffu graffu arno yn y gwasanaethau cymdeithasol yn eu cyfanrwydd.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i aelodau'r Cabinet a'r swyddogion am fod yn bresennol ac am ateb cwestiynau'r aelodau.

<u>Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid</u>

Gwnaeth y Cadeirydd groesawu'r Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod y Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant, Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, a Nick Blake, Rheolwr Cymorth Busnes, i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cadeirydd wahodd Aelod y Cabinet i wneud datganiad lle gwnaeth nodi'r llwyth o waith a oedd eisoes yn cael ei wneud.

Dangoswyd cyflwyniad i'r aelodau ar Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y Cynllun Llwybr Clir, cyfrifoldebau'r gyfarwyddiaeth, dangosyddion corfforaethol allweddol, meysydd i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu, cyflawniadau allweddol, ymrwymiadau, a dangosyddion perfformiad.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i swyddogion am y cyflwyniad a gwahodd aelodau i ofyn cwestiynau cyffredinol a gwneud sylwadau.

- Gwnaeth aelodau ganmol yr holl waith a oedd eisoes wedi'i wneud. Roedd yr aelodau yn ei chael yn hawdd gweld a deall y darlleniad ar draws ar y cyflwyniad a gwnaethant ofyn a ellid gwneud hyn yn nogfen y cynllun cyflawni. Gwnaeth swyddogion ddatgan mai'r templed a oedd yn cael ei ddefnyddio oedd yr un i'w ddefnyddio ar draws yr holl feysydd gwasanaeth.

- Gwnaeth aelodau hoffi'r adran a oedd yn crynhoi'r dyheadau allweddol a chanfod bod y naratif yn ddefnyddiol.

- Nododd yr aelodau mai allbwn oedd y mesurau gan fwyaf yn hytrach na chanlyniadau a gwnaethant ofyn pa gynlluniau a oedd yn dangos yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni mewn modd ansoddol. Gwnaeth swyddogion egluro bod gorfod cynnwys y niferoedd uchel yn golygu nad oedd llawer o le ar gyfer y gwaith ansoddol a oedd yn cael ei wneud. Gwnaeth swyddogion egluro eu bod yn cadw cytbwysedd da rhwng gwybodaeth galed a meddal, mewnbwn, allbwn a chanlyniadau. Roedd angen gwneud gwaith ar sut i gyflwyno'r wybodaeth hon a dylid trefnu hyn gyda'r Pennaeth Perfformiad.

- Gwnaeth aelodau nodi nad oedd unrhyw sôn am gydlyniad/diogelwch cymunedol yn y cynllun.
  Gwnaeth swyddogion nodi bod hyn bellach yng nghynllun y Gyfarwyddiaeth Adnoddau ynghyd â masnachu pobl.

- Gwnaeth aelodau ofyn a oedd adolygiad o'r Gwasanaethau Cynghori yn cael ei gynnal, gan ei bod yn ymddangos nad oedd dim sôn amdano yn y cynllun. Datganodd swyddogion ei fod wedi'i gynnwys. Dywedwyd wrth aelodau bod gostyngiad wedi bod o ran y cyllid ar gyfer gwasanaethau darparwyr allanol, ac erbyn hyn roedd angen nodi pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth wrth iddo fynd yn ei flaen. Bydd grant yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cael ei leihau a bydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno, felly mae llawer o waith i'w wneud. Roedd swyddogion yn gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf, gan fod cyllid yn mynd yn uniongyrchol atyn nhw ar gyfer gwasanaethau cynghori. Roedd angen mapio a chynllunio ar gyfer y gostyngiad; roedd gwaith ar y gweill, ond nad oedd wedi cyrraedd y broses ail-gomisiynu ffurfiol. Gwnaeth y Cadeirydd geisio sicrwydd y byddai gwaith ymgynghori addas â'r sector ac â'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gynnal, pe bai'n dod yn broses ail-gomisiynu ffurfiol; rhoddodd swyddogion y sicrwydd hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ynglŷn â dangosyddion perfformiad.

- Gwnaeth aelodau drafod Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl a nodi'r amser a dreuliwyd mewn rhai achosion, a gwnaethant ofyn pa gymorth a ddarperir yn y cyfamser. Gwnaeth swyddogion egluro bod pobl yn derbyn yr opsiwn i gael gwneud unrhyw waith eu hunain, ond ni wnaethpwyd hyn yn aml iawn. Roedd gwasanaethau cymorth da ar gael, ac mai Caerdydd oedd yr awdurdod lleol a oedd yn perfformio'n orau yng Nghymru ychydig o flynyddoedd yn ôl a bellach mae yn yr unfed safle ar ddeg. Roedd dull carlam yn cael ei ddatblygu a cheir rhagor o wybodaeth am hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Ceisiodd aelodau ragor o wybodaeth am y dangosyddion perfformiad mewn perthynas â theleofal/ambiwlans. Datganodd swyddogion fod y Gwasanaeth Wardeniaid Symudol yn wasanaeth unigryw lle gall warden ddod os bydd rhywun yn syrthio, er enghraifft, gan leihau'r angen am alw ambiwlans; mae'n bosibl bod hyn yn arbed arian hefyd.

- Gwnaeth aelodau gyfeirio at ddigartrefedd a nodi mai dyletswydd atal oedd 55% o’r achosion. Gwnaeth swyddogion ddatgan bod 45% yn symud ymlaen i'r cam nesaf; roedd hyn wedi'i osod gan y tîm digartrefedd ac roedd yn ddangosydd newydd. Byddai nodyn eglurhaol ynglŷn â'r dangosyddion newydd hyn yn cael ei roi i aelodau.

- Gwnaeth aelodau ofyn sut byddai swyddogion yn paratoi pobl ar gyfer ragor o ddiwygiadau lles arfaethedig a chynghori ar ba wasanaethau sydd ar gael. Datganodd swyddogion y byddent yn ysgrifennu at bobl yn bersonol o ran y cap ar fudd-daliadau. Roedd swyddogion yn rhagweithiol o ran cynghori ar ddyled; maent yn gweithredu'n gyflym ac maent yn cyfeirio pobl at wasanaethau i Mewn i Waith lle bo'n briodol. Gwnaeth Aelod y Cabinet ychwanegu bod manylion pob achos o ôl-ddyledion rhent yn cael eu darparu i swyddogion, bod llawer o gyfathrebu â phobl, a bod proses hir i helpu pobl mewn trafferth, gan gynnwys cael cymorth eirioli.

- Gwnaeth aelodau nodi'r cyfeiriad at Gymunedau yn Gyntaf a gofyn pam roedd y targed wedi cael ei ostwng. Roedd angen i swyddogion wirio'r wybodaeth hon a chynghori aelodau o ganlyniad i hyn.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i swyddogion a thystion am ddod i'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau gan yr aelodau.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r swyddogion perthnasol gan ddiolch iddynt am ddod i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol ar 11 Mai 2016 a chyfleu'r arsylwadau a gafwyd gan y pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 87 : CYNLLUNIAU AILSEFYDLU POBL SYRIAIDD AC AFFGAN - DIWEDDARIAD

Gwnaeth y Cadeirydd groesawu'r Cynghorydd Susan Elsmore, Aelod y Cabinet dros Iechyd, Tai a Llesiant, a Sarah McGill, Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, i'r cyfarfod.

Gwnaeth y Cadeirydd wahodd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd fod hyn yn fater pwysig o safbwynt gwleidyddol a moesegol; roedd yn fodlon ar ganlyniad gwaith y Grŵp Arweinyddiaeth Ranbarthol a'r Grŵp Gweithredol.

Dangoswyd cyflwyniad i'r aelodau ar y Cynllun Ailsefydlu Pobl Syriaidd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun, llywodraethiant, cynnydd, a'r camau nesaf yn y cynllun.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i swyddogion am y cyflwyniad a gwahodd yr aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.

- Gwnaeth aelodau ofyn ynglŷn â pha ffoaduriaid sy'n dod i Gaerdydd a'r tai sydd ar gael, a sut y byddai'r ddau yn cael eu paru. Esboniodd swyddogion y byddai Cymdeithas Tai Taf yn rheoli rhan o'r broses. Byddai'n rhaid i'r tai fod mewn ardaloedd lle mae llefydd ysgol ac y byddai gwybodaeth ar faint y tŷ yn cael ei llwytho ar gronfa ddata ac y byddai'r Swyddfa Gartref yn canfod teulu a fyddai'n gweddu. Byddai angen ystyried anghenion eraill hefyd, megis anghenion iechyd, a phe na fyddai'n bosibl eu diwallu, yna gallai'r teulu gael ei wrthod.

- Roedd aelodau yn pryderu y gallai pobl deimlo bod dull dwy-haen i ymdrin â hyn ar waith a hefyd y byddai cymorth a chefnogaeth ar gael mewn rhai oriau penodol yn unig.  Gwnaeth swyddogion nodi'r teimlad o ran y dull dwy-haen ac mae'r pryder hwn wedi cael ei leisio ar lefel genedlaethol.  Ychwanegwyd y byddai unrhyw gymorth a chefnogaeth yng Nghaerdydd ar gyfer y Cynllun Ailsefydlu Pobl Syriaidd ar gael 24 awr ac yn yr iaith gywir, ac y byddai adnoddau ar gael ar gyfer hyn.

- Mynegodd aelodau bryderon am seilwaith, megis ysgolion a'r gwasanaeth iechyd, sydd eisoes o dan bwysau.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod angen gwaith wedi'i gysylltu ar y cyd; roedd Addysg ac Iechyd yn rhan ohono a byddai hyn yn cynorthwyo o ran canfod lle yn union y bydd teuluoedd yn cael eu lleoli. Disgwylid y byddai tua 60 o bobl yn cael eu lleoli rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg, gyda rhaniad 60/40 i Gaerdydd.

- Gofynnodd aelodau a fyddai tai preifat yn cael eu rhentu yn unig ac atebwyd mai dyna fyddai'r sefyllfa.  Gofynnod aelodau hefyd pa lefel o rent fyddai'n cael ei thalu.  Esboniodd swyddogion y byddai'r tai a ddefnyddid ar lefel lwfans tai lleol er mwyn bod yn gynaliadwy, er y byddai'n bosibl bod angen cael taliad ychwanegol mewn rhai ardaloedd.

- Gofynnodd aelodau a fyddai'r cymorth a roddid ar gyfer un flwyddyn yn unig neu'n barhaus.  Esboniodd y swyddogion y byddai'r cymorth yn cael ei roi am y flwyddyn gyntaf ac wedyn ar lefel ostyngedig hyd at bedair blynedd.

- Datganodd yr Aelod Cabinet y byddai'n gobeithio y byddai cymunedau yn croesawu pobl a'u cynorthwyo i ddod yn rhan o'r gymdeithas, a gwnaeth ddiolch i aelodau am y cynigion cymorth oddi wrth eu canolfannau cymunedol lleol; roedd cymorth yn cael ei gydlynu ac y byddai aelodau yn cael eu rhoi mewn cyswllt gyda'r tîm hwn.

- Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar y Cynllun Affgan. Datganodd swyddogion mai'r Cynllun Syriaidd oedd blaenoriaeth y Swyddfa Gartref ond eu bod yn ymrwymo i symud ymlaen gyda'r Cynllun Affgan pan fo angen.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i swyddogion a thystion am ddod i'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau gan yr aelodau.

CYTUNWYD – Bod y Cadeirydd ar ran y pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, y cyfarwyddwyr a'r swyddogion perthnasol gan ddiolch iddynt am ddod i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol ar 11 Mai 2016 a chyfleu'r arsylwadau a gafwyd gan y pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

88 : ADRODDIAD AR FUSNES Y PWYLLGOR

Yng nghyfarfod y pwyllgor ar 16 Medi 2015, gwnaeth aelodau drafod sut roeddent am drin adroddiadau yn y dyfodol ynglŷn â busnes y pwyllgor megis adroddiadau gohebiaeth ac adroddiadau rhaglenni gwaith. Gwnaeth aelodau benderfynu cyfuno'r rhain o fewn adroddiad cyffredinol ar fusnes y pwyllgor.

Gwnaeth yr adroddiad hwn roi'r diweddariad diweddaraf ar ohebiaeth i'r pwyllgor. Gwnaeth y pwyllgor dderbyn copïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â materion y craffwyd arnynt gan y pwyllgor hwn. Nodwyd bod ymateb yn dal heb ei dderbyn o ran yr eitem Ailgomisiynu Trais yn y Cartref.

Gwnaeth y Prif Swyddog Craffu esbonio'r adroddiadau ymchwil a'r adroddiad ar Wasanaethau Rheoleiddiol a Rennir i aelodau.

O ran yr Adroddiad Blynyddol Drafft, gwnaeth y Prif Swyddog Craffu ddatgan bod yr adroddiad yn fyrrach na'r rhai a gyhoeddwyd yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd y gofynnwyd iddynt gynnwys mwy o ffocws. Gwnaeth yr adroddiad drafft dynnu sylw at y ffaith bod llawer o waith wedi cael ei wneud gan y pwyllgor, gan gynnwys llawer o waith ymestyn allan i ddinasyddion.

Gofynnwyd i aelodau a oedd angen unrhyw newidiadau i'r adroddiad drafft. Nodwyd bod y gwaith ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol heb gael ei gynnwys eto.

O ran y Rhaglen Waith, gwnaeth y Prif Swyddog Craffu esbonio bod bwriad i drefnu'r rhan fwyaf o'r eitemau dros ben ym mis Mehefin a Gorffennaf, gan gynnwys y canlynol: perfformiad pedwerydd chwarter y flwyddyn, cynllun ychwanegol ar gyfer trwyddedu tai amlfeddiannaeth, strategaeth tai, adolygiad blynyddol Cymunedau yn Gyntaf, safle sipsiwn a theithwyr, a diogelu.

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn cais gan gynghorydd ynglŷn ag Adolygiad y Gwasanaethau Cynghori; roedd Aelodau yn ystyried bod y Prif Swyddog Craffu yn cael y dasg o gysylltu â swyddogion a threfnu amserlenni ar gyfer hyn.

Adroddiad perfformiad pedwerydd chwarter y flwyddyn – roedd aelodau'n ystyried y dylid cyflwyno hyn i'r panel perfformiad cyn mynd at y pwyllgor llawn.

Ymchwiliad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – roedd yr aelodau yn ystyried bod y Prif Swyddog Craffu yn cael y dasg o geisio barn yr aelodau ynglŷn â phryd y dylid dechrau.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i swyddogion a thystion am ddod i'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau gan yr aelodau.

CYTUNWYD – Bod yr Adroddiad Blynyddol Drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a bod y Cadeirydd ar ran y pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet, cyfarwyddwyr a swyddogion perthnasol, gan ddiolch iddynt am ddod i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol ar 11 Mai 2016 a chyfleu'r arsylwadau a gafwyd gan y pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 89 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trefnir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol ar gyfer 8 Mehefin 2016 am 5pm yn Ystafell Bwyllgor 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.